Ni fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ad-daliadau os byddwch yn ennill £15,000 neu lai, a dim ond eich enillion dros £15,000 fydd yn cael eu hystyried.

Gwneud ad-daliadau ychwanegol

Beth bynnag fo'r swm y byddwch yn ei ennill, gallwch ad-dalu'ch benthyciad yn gyflymach trwy wneud ad-daliadau ychwanegol gwirfoddol. Gallwch wneud hyn trwy anfon siec i'r SLC, gan ddyfynnu'ch cyfeirnod. Yn ogystal, gallwch dalu trwy gyfrwng archeb sefydlog, cerdyn debyd neu gredyd, archeb bost neu gredyd banc giro. Os ydych yn dymuno, gallwch wneud ad-daliadau cyn

B

| Ad-daliadau blynyddol yn cael eu talu trwy'r system hunanasesu | Bob blwyddyn |
|--|--------------|
| Elw hunangyflogedig | £13,000 |
| Incwm heb ei ennill (er enghraifft, incwm difidend gan gyfranddaliadau) | £6,000 |
| Cyfanswm yr incwm gros bob blwyddyn | £19,000 |
| Trothwy incwm | £15,000 |
| Cyfran yr incwm y telir ad-daliadau ohoni | £4,000 |
| Ad-daliadau blynyddol (9% x £4,000) | £360 |

y dyddiad cychwyn ad-daliadau ym mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs.

Os byddwch yn dewis talu ad-daliadau ychwanegol, byddwch yn ad-dalu eich benthyciad yn gynt. Fodd bynnag, dylech gofio mai penderfyniad gwirfoddol yw hyn, **felly ni fydd yn effeithio ar swm yr ad-daliadau y bydd yn rhaid i chi eu gwneud trwy'r system dreth.** Felly, os ydych yn gyflogedig, bydd yn rhaid i'ch cyflogwr dynnu symiau o'ch cyflog o hyd. Os ydych yn gwsmer hunanasesu, bydd yn rhaid i chi dalu'r swm sy'n ddyledus o hyd, a seiliwyd ar eich incwm ar gyfer y flwyddyn. Ni fydd modd i chi gael ad-daliad am unrhyw symiau y byddwch yn eu talu yn wirfoddol, oni bai eich bod wedi gorffen ad-dalu'ch benthyciad, a'ch bod wedi talu gormod.

Pan fyddwch yn agosáu at eich ad-daliadau olaf, efallai y bydd yr SLC yn cysylltu â chi i drafod eich dewisiadau ynghylch ad-dalu er mwyn cau'ch cyfrif. Efallai y bydd hyn yn fwy cyfleus i chi na pharhau i dalu ad-daliadau nes i chi orffen ad-dalu'ch benthyciad. Byddwch yn cael ad-daliad, a llog ar yr un gyfradd â'r gyfradd a dalwyd gennych ar eich benthyciad, os byddwch yn ad-dalu mwy na'r swm sy'n ddyledus.

4 Yr hyn y byddwch yn ei ad-dalu

Talu arian yn ôl i chi

Mae'n bosib y byddwch yn talu rhai ad-daliadau yn ystod blwyddyn dreth er bod cyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn honno yn llai na £15,000. Byddai hyn yn digwydd, er enghraifft, os byddai'ch incwm misol yn uwch na £1,250 (swm misol sy'n cyfateb â'r trothwy incwm blynyddol o £15,000) ond eich bod wedi gweithio am rai misoedd yn unig yn ystod y flwyddyn. Gallai ddigwydd hefyd os bydd eich incwm wedi newid o fis i fis (er enghraifft, cawsoch daliad bonws).

Beth bynnag fo'r rheswm, os bydd cyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn gyfan yn is na £15,000, bydd modd i chi wneud cais i'r SLC am ad-daliad o'r ad-daliadau a dalwyd gennych yn ystod y flwyddyn honno. Fodd bynnag, ni fyddant yn rhoi ad-daliad i chi oni bai eich bod yn gofyn iddynt wneud hynny. Yn ogystal, ni fydd modd iddynt dalu ad-daliadau nes bydd CATHEM wedi cadarnhau cyfanswm eich enillion a chyfanswm yr ad-daliadau ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Wrth gwrs, efallai na fyddwch yn dymuno cael ad-daliad oherwydd y bydd unrhyw ad-daliadau a dalwyd gennych yn gostwng eich swm dyledus, felly byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad yn gynt.

Cofiwch, ni fydd yr SLC yn cynnig ad-daliad am unrhyw daliadau gwirfoddol a wnaethpwyd gennych.

Os ydych yn anabl

Os ydych yn anabl, ni fydd unrhyw fudd-daliadau anabledd y byddwch yn eu cael yn cyfrif tuag at y trothwy incwm o £15,000, hyd yn oed os byddant yn fudd-daliadau trethadwy.

Talu'r taliad Gwaddol Graddedigion ar gyfer myfyrwyr yn yr Alban

Cyflwynwyd Deddf Gwaddol Graddedigion ar 1 Ebrill 2008 ac mae'n golygu na fydd angen i chi dalu ffi y Gwaddol Graddedigion os gwnaethoch chi orffen eich cwrs ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban (SAAS). Trowch at dudalen 24 am y manylion cyswllt.

5 Ad-dalu trwy'r system dreth

Gwneud ad-daliadau trwy gynllun PAYE

Os ydych yn weithiwr cyflogedig sy'n talu treth yn y DU, bydd eich cyflogwr yn tynnu ad-daliadau o'ch cyflog ar yr un adeg ag y byddant yn tynnu cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol ohono.

Bydd eich cyflogwr yn tynnu'r ad-daliadau o'ch cyflog a bydd y rhain yn dangos ar eich slip cyflog.

Bydd yr SLC yn dweud wrth CATHEM pan fyddwch yn gorffen neu'n gadael eich cwrs, a bydd yn rhoi manylion iddynt, fel eich enw a'ch Rhif Yswiriant Gwladol. Bydd CATHEM yn edrych i weld a ydych yn gweithio ac os ydych, bydd yn dweud wrth eich cyflogwr bod gennych fenthyciad (ond ni fydd yn nodi faint).

Yn ogystal, efallai y bydd cyflogwyr yn cael eu hysbysu bod angen iddynt wneud didyniadau trwy gyfrwng ffurflenni treth arferol. Pan fyddwch yn newid swydd neu'n dechrau gweithio am y tro cyntaf, bydd yn rhaid i chi roi ffurflen P45 neu P46 i'ch cyflogwr newydd i'w llenwi. Mae'r ddwy ffurflen yn cynnwys adran i hysbysu'ch cyflogwr newydd bod angen iddynt ddechrau tynnu symiau ar gyfer benthyciadau myfyrwyr. Os oes gennych ffurflen P45 ers swydd flaenorol, dylai'ch cyflogwr blaenorol fod wedi nodi 'le' yn y bocs ar eich cyfer. Ar ffurflen P46, ceir bocs y bydd angen i chi roi tic ynddo os byddwch yn ei llenwi ar ôl 6 Ebrill yn ystod y flwyddyn dreth ar ôl i chi adael neu orffen eich cwrs, er mwyn i'ch cyflogwr wybod ei bod yn bryd i chi ad-dalu'ch benthyciad.

Sut y bydd cyflogwyr yn gwybod faint y bydd angen iddynt ei gymryd o'ch cyflog?

Bydd CATHEM yn rhoi gwybodaeth i'ch cyflogwr er mwyn iddynt allu cyfrifo faint i'w dynnu o'ch cyflog. Os yw'ch cyflog yn uwch na'r trothwy yn ystod y cyfnod talu, bydd eich cyflogwr yn cymryd yr ad-daliadau ac yn eu trosglwyddo i CATHEM. Ar ddiwedd pob blwyddyn, bydd eich cyflogwr yn anfon ffurflen flynyddol i CATHEM a fydd yn

hysbysu CATHEM o swm y benthyciadau myfyrwyr a dynnwyd o'ch enillion yn ystod y flwyddyn.

Bydd eich cyflogwr yn anfon manylion am eich ad-daliadau i CATHEM ar ddiwedd pob blwyddyn dreth.

Bydd CATHEM yn cymryd y wybodaeth hon o ffurflen flynyddol eich cyflogwr ac yn hysbysu'r SLC o swm yr ad-daliadau a wnaethpwyd. Yna, bydd yr SLC yn diweddarau eich cyfrif. Bydd yn cymryd ychydig amser ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth i ddiweddarau'ch cyfrif. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod yn rhaid i CATHEM brosesu niferoedd mawr o ffurflenni diwedd blwyddyn gan gyflogwyr bob blwyddyn. **Mae'n golygu na fyddant efallai yn prosesu ffurflenni y byddant yn eu cael erbyn diwedd y flwyddyn dreth, am rai misoedd wedi hynny.**

Fodd bynnag, bydd yr ad-daliadau a wnaethpwyd gennych yn cael eu defnyddio i ad-dalu'ch benthyciad ar gyfer y flwyddyn gywir – mewn 12 rhandaliad cyfartal fel arfer. Bydd yr SLC yn sicrhau bod y swm cywir o ran llog wedi cael ei ychwanegu i'ch cyfrif, ac ni fyddwch yn talu unrhyw log ychwanegol, hyd yn oed os bydd wedi cymryd ychydig amser i'ch manylion ad-dalu gyrraedd yr SLC.

Mae'n bwysig deall y bydd ad-daliadau a gymrwyd gan eich cyflogwr yn cael eu cyfrifo ar sail 'cyfnodau tâl unigol' ac nid ar sail cyfanswm eich incwm ar gyfer blwyddyn gyfan. (Os byddwch yn cael credydau treth, ni fydd y rhain yn cyfrif fel incwm wrth gyfrifo'ch ad-daliad benthyciad myfyrwyr.)

Dim ond pan fydd yn cael ffurflen flynyddol eich cyflogwr y bydd CATHEM yn cael gwybod y cyfanswm y mae'ch cyflogwr wedi'i gymryd yn ystod y flwyddyn dreth gyfan, a fydd yn cynnwys y wybodaeth honno. Mae'r cynllun yn gweithio mewn ffordd debyg i ddiyniadau treth. Bydd angen i chi gadw golwg ar yr hyn a fydd yn cael ei dynnu o'ch cyflog bob mis, oherwydd ni fydd CATHEM na'r SLC yn gwybod y swm a fydd yn

5 Ad-dalu trwy'r system dreth

ddyledus o hyd nes i'ch cyflogwr gyflwyno'i ffurflen flynyddol i CATHEM, a bod CATHEM wedi trosglwyddo'r wybodaeth i'r SLC.

Os mai dim ond rhan o'r flwyddyn y byddwch yn ei dreulio yn gweithio, ac os yw'ch cyflogwr wedi tynnu ad-daliadau cywir o'ch cyflog misol neu wythnosol, bydd modd i chi ofyn i'r SLC am ad-daliad os na fydd eich enillion gros ar gyfer y flwyddyn dreth yn uwch na £15,000.

Gweithwyr cyflogedig y bydd CATHEM yn gofyn iddynt gyflwyno ffurflenni hunanasesu

Os ydych yn weithiwr cyflogedig sy'n cael ffurflen dreth dan y system hunanasesu (HA) hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhai ad-daliadau benthyciad gyda'r ffurflen, yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu cymryd gan eich cyflogwr.

Bydd cyfanswm y benthyciad myfyrwyr y byddwch yn gyfrifol am ei ad-dalu yn ystod y flwyddyn yn cael ei seilio ar eich holl incwm ar gyfer y flwyddyn – hynny yw, eich holl incwm PAYE priodol ac unrhyw incwm hunangyflogedig ychwanegol ac unrhyw incwm heb ei ennill (hynny yw, dros £2,000). Gallwch hawlio credyd yn eich ffurflen dreth am unrhyw symiau benthyciadau myfyrwyr y mae'ch cyflogwr wedi'u cymryd yn barod yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau na fyddwch yn ad-dalu gormod.

Yn yr un modd â PAYE, bydd y system HA yn cyfrifo'ch ad-daliadau benthyciad ar sail eich incwm sy'n uwch na'r trothwy £15,000, ar gyfradd o 9%. Bydd unrhyw daliad HA yn ddyledus ar 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn dreth eich asesiad. Mae'r arweiniad a'r llyfrynnau a ddarperir gan CATHEM yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i lenwi'ch ffurflen HA.

Os na fydd CATHEM yn anfon ffurflen dreth atoch, ni fydd yn rhaid i chi wneud ad-daliadau pellach yn ychwanegol i'r rhai y mae'ch cyflogwr yn eu

cymryd yn barod. Ar unrhyw adeg, gallwch ddewis ad-dalu'ch benthyciad yn gynt trwy dalu ad-daliadau gwirfoddol.

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n hunangyflogedig?

Os ydych yn hunangyflogedig, bydd yn rhaid i chi anfon ffurflen dreth at CATHEM bob blwyddyn dan y system HA. Bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyrwyr yn ddyledus fel rhan o'ch bil HA ar gyfer eich treth. Bydd yr ad-daliad benthyciad myfyrwyr yn seiliedig ar eich holl incwm gros dros £15,000, gan gynnwys eich holl incwm heb ei ennill (er enghraifft, incwm difidend gan gyfranddaliadau) os bydd hwn dros £2000.

Bydd angen cofio rhai pwyntiau cyffredinol wrth gyfrifo'ch incwm bob blwyddyn.

- Ni fydd incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner, eich rhiant neu unrhyw berthynas arall yn cael ei ystyried.
- Ni fydd incwm gan Fudd-dal Plant a budd-daliadau anabledd, gan gynnwys Budd-dal Analluogrwydd, yn cael ei ystyried.
- Ni fydd credydau treth yn cael eu hystyried.
- Os byddwch yn gwneud ad-daliadau gwirfoddol i'r SLC, bydd yn rhaid i chi wneud ad-daliadau trwy system HA o hyd.

Byw mewn gwlad dramor

Os nad ydych yn talu treth yn y DU oherwydd, er enghraifft, eich bod yn byw ac yn gweithio mewn gwlad dramor i gyflogwr nad yw'n gyflogwr o'r DU, rhaid i chi ddweud wrth yr SLC, a fydd yn gwneud trefniadau gyda chi i gasglu'r ad-daliadau yn uniongyrchol. Byddant yn gofyn am fanylion eich incwm ac, os byddwch yn gyfrifol am wneud ad-daliadau, byddant yn cyfrifo faint y dylai'r rhain fod.

Bydd y swm y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu bob mis yn cael ei osod bob blwyddyn ac fe fydd yn cael ei gyfrifo trwy ddilyn rheolau tebyg i'r rhai sy'n

5 Ad-dalu trwy'r system dreth

berthnasol i drethdalwyr yn y DU. Fodd bynnag, efallai na fydd y trothwy enillion yr un fath ag y mae yn y DU.

Bydd eich ad-daliadau yn dibynnu ar amodau contract y benthyciad. Bydd yr SLC yn gofyn i chi wneud ad-daliadau mewn punnoedd sterling. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw daliadau a godir gan eich banc er mwyn trosglwyddo arian i'r SLC. Trowch at adran 8 ('Symud i wlad dramor') am ragor o wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd os bydd busnes fy nghyflogwr yn methu neu os na fydd yn talu fy nidyniadau i CATHEM?

Os oes gennych chi dystiolaeth bod didyniadau wedi cael eu cymryd (mewn geiriau eraill, slipiau cyflog), bydd yr SLC yn nodi swm llawn yr ad-daliadau fel credyd yn eich cyfrif.

Rhannu Gwybodaeth

Dan y gyfraith, mae gan CATHEM yr hawl i roi gwybodaeth am eich ad-daliadau i'r SLC. Fodd bynnag, ni all CATHEM roi unrhyw wybodaeth iddo am eich sefyllfa dreth, gan fod y wybodaeth hon yn gyfrinachol. Yn ogystal, ni fydd eich cyflogwr na CATHEM yn cael unrhyw fanylion am gyfrif eich benthyciad, ac eithrio'r ffaith bod gennych fenthyciad. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn delio â gwybodaeth bersonol a drosglwyddir rhwng yr SLC, CATHEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Didyniadau eraill o enillion

Efallai y bydd angen ystyried didyniadau eraill o'ch incwm wrth gyfrifo'ch ad-daliadau. Er enghraifft, os bydd llys neu awdurdod lleol wedi gosod Gorchymyn Atal Cyflog (AEO) arnoch, neu os bydd yr Asiantaeth Cynnal Plant wedi gosod Gorchymyn Didynnu Cyflog (DEO) arnoch.

Os bydd un o'r gorchymynion yn ymwneud â chasglu Treth Gyngor neu Dâl Cymunedol, ni fydd

eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau benthyciad myfyrwyr nes i'r gorchymyn hwnnw ddod i ben. Bydd gorchymynion er mwyn casglu cymorth i blant, dirwyon neu daliadau cynhaliaeth yn cael eu talu cyn swm y benthyciad myfyrwyr. Ac, efallai y bydd swm y benthyciad myfyrwyr a fydd yn cael ei gymryd yn cael ei gyfyngu er mwyn sicrhau na fydd eich cyflog clir (eich cyflog ar ôl didyniadau) yn gostwng islaw unrhyw lefel ddiogelu a bennir gan y llys. Bydd unrhyw orchymynion llys i gasglu dyledion eraill yn cael eu talu ar ôl cymryd swm y benthyciad myfyrwyr.

Yn yr Alban, os bydd yn rhaid i'ch cyflogwr gadw at unrhyw restiad enillion (mae hyn yn golygu pan fydd modd cymryd eich arian er mwyn eich atal rhag ad-dalu un dddyled cyn un arall) neu orchymyn didynnu enillion, ni fyddant yn cymryd unrhyw ad-daliadau benthyciad myfyrwyr.

Gwyliau Ad-dalu

Os ydych yn byw yn Lloegr ac os byddwch yn cychwyn ar gwrs addysg uwch yn 2008 neu 2009, efallai y bydd modd i chi ddewis cymryd Gwyliau Ad-dalu (egwyl o'ch ad-daliadau benthyciad myfyrwyr) pan fydd hi'n bryd i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad. Os byddwch yn cael benthyciad myfyrwyr am y tro cyntaf ac os bydd eich dyddiad ad-dalu ym mis Ebrill 2012 neu wedi hynny, byddwch yn gymwys i fanteisio ar egwyl cyn ad-dalu'ch benthyciad. Rhaid i Wyliau Ad-dalu fod o fewn blynyddoedd treth. Os ydych yn gymwys, bydd modd i chi fanteisio ar egwyl o hyd at bum mlynedd o fis Ebrill 2012 cyn ad-dalu'ch benthyciad. Bydd unrhyw gyfnod o Wyliau Ad-dalu y byddwch yn manteisio arno yn ymestyn y cyfnod ad-dalu arferol o 25 o flynyddoedd gymaint â hyd yr egwyl y byddwch yn manteisio arno. Felly, os byddech yn manteisio ar Wyliau Ad-dalu o bum mlynedd, byddai'ch benthyciad myfyrwyr yn cael ei ddiddymu ar ôl 30 o flynyddoedd, yn hytrach na 25.

5 Ad-dalu trwy'r system dreth

Os ydych yn ad-dalu mwy nag un math o fenthyciad

Dim ond un math o fenthyciad myfyrwyr y bydd gan y rhan fwyaf o bobl (amodol ar incwm neu am gyfnod sefydlog). Fodd bynnag, efallai y bydd gan rai pobl ddau fath o fenthyciad os byddant wedi dilyn mwy nag un cwrs addysg uwch. Os byddwch wedi dewis dilyn mwy nag un cwrs, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r benthyciadau a gawsoch ar gyfer pob cwrs yn unol â'r amodau a thelerau arferol fel arfer. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad cyfnod sefydlog a'ch benthyciad amodol ar incwm ar yr un pryd efallai. (Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar eich incwm.) Os felly, byddai cyfanswm eich ad-daliadau yn uwch nag y byddent os byddai gennych un math o fenthyciad yn unig.

Athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)

Bydd gwahanol drefniadau yn berthnasol i athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau TAR y mae ganddynt ddau fath o fenthyciad. Os ydych yn fyfyrwr TAR ac mae gennych fenthyciad cyfnod sefydlog ers eich gradd gyntaf, ac os byddwch yn manteisio ar fenthyciad amodol ar incwm ar gyfer eich cwrs TAR, dim ond un benthyciad y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu ar y tro. Fel arfer, ar ôl i chi ddechrau gweithio, byddwch yn dechrau ad-dalu'ch benthyciad amodol ar incwm. Fodd bynnag, bydd yr ad-daliadau yn stopio pan fydddech yn ennill digon i ddechrau talu'r ad-daliadau cyfnod sefydlog. Yna, byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad cyfnod sefydlog nes iddo gael ei ad-dalu yn llawn. Ar yr adeg hon, bydd yr ad-daliadau amodol ar incwm yn cychwyn unwaith eto.

6 Datganiadau blynyddol

Bydd yr SLC yn anfon datganiadau blynyddol atoch rhwng mis Medi a mis Tachwedd bob blwyddyn nes i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad. Yn union cyn i chi wneud hyn, bydd yr SLC yn anfon datganiad interim atoch a fydd yn nodi sefyllfa eich cyfrif ar yr adeg honno.

Sefydlwyd y system benthyciadau myfyrwyr gyda'r bwriad o ddefnyddio'r system dreth er mwyn casglu'ch ad-daliadau. O ganlyniad, dim ond unwaith y flwyddyn y bydd modd i'r SLC ddiweddarau eich cyfrif, ar ôl iddo gael eich ffeil dalu gan CATHEM.

Ar ôl i chi ddechrau talu ad-daliadau, byddwch yn cael datganiad fel y nodir isod.

- Os byddwch yn talu'ch holl ad-daliadau trwy'ch cyflogwr gan ddefnyddio system PAYE, byddwch yn cael datganiad rywbryd ar ôl i'r flwyddyn dreth ddod i ben. Os oes gennych fwy nag un swydd, efallai y byddwch yn cael mwy nag un datganiad ar gyfer blwyddyn dreth. Nodir 'datganiad interim' neu 'ddatganiad terfynol' yn eglur ar y rhain. Mae hyn oherwydd y gallai'r SLC gael gwybodaeth am eich ad-daliadau gan eich gwahanol swyddi ar wahanol adegau.
- Os byddwch yn talu ad-daliadau yn uniongyrchol i CATHEM trwy gyfrwng y system HA, byddwch yn cael datganiad yn ystod mis Ebrill ar ôl anfon eich ffurflen.

Mewn geiriau eraill, os mai Ionawr 2009 fydd dyddiad anfon y ffurflen, bydd yr SLC yn anfon datganiad atoch ar ddiwedd mis Ebrill 2009. Fodd bynnag, os byddwch yn anfon eich ffurflen hunanasesu i mewn yn hwyr, bydd yr SLC yn anfon eich datganiad ar ddiwedd y mis y bydd CATHEM yn rhoi gwybod iddo am eich enillion.

- Os ydych y tu allan i system dreth y DU (er enghraifft, os ydych yn byw ac yn gweithio mewn gwlad dramor), byddwch yn cael datganiad yn fuan ar ôl 5 Ebrill bob blwyddyn.

Mae hyn yn golygu y bydd datganiadau yn cyrraedd rywbryd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, ac y byddant yn cynnwys taliadau a wnaethpwyd tan ddiwedd y flwyddyn honno yn unig.

Os byddwch yn cysylltu â'r SLC yn ystod y flwyddyn, ni fydd ganddynt gofnodion o'r ad-daliadau yr ydych wedi'u gwneud ers y tro diwethaf iddynt gael eich ffeil gan CATHEM.

Fodd bynnag, **os byddwch yn cadw'ch datganiad, ynghyd â'ch P60 a'ch slipiau cyflog** (sy'n cynnwys manylion pob un o'ch ad-daliadau), gallwch ddefnyddio'r rhain i gyfrifo faint sydd gennych ar ôl i'w dalu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cyfrif, neu os hoffech gael help i gyfrifo faint sydd gennych ar ôl i'w dalu, ffoniwch yr SLC ar y rhif a nodir ar dudalen 23.

Rhaid i chi sicrhau bod gennych eich slipiau cyflog a'ch cyfeirnod cwsmer pan fyddwch yn cysylltu â nhw.

7 Agosáu at orffen ad-dalu eich benthyciad

Mae'n bwysig eich bod yn cadw golwg ar eich ad-daliadau er mwyn i chi wybod pryd y byddwch yn gorffen ad-dalu'ch benthyciad.

Bydd eich slipiau cyflog yn rhoi diweddariad rheolaidd i chi am y swm yr ydych yn ei ad-dalu a bydd eich ffurflen P60 yn nodi cyfanswm yr ad-daliadau a wnaethpwyd mewn blwyddyn. Gan na fydd yr SLC yn cael y wybodaeth hon tan ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae'n bwysig eich bod yn cadw gafael arnynt, yn yr un modd ag y mae'n bwysig eu cadw yn ddiogel at ddibenion treth.

Gall yr SLC drefnu bod eich ad-daliadau benthyciad yn dod i ben mewn pryd os ydych yn credu eich bod o fewn blwyddyn o orffen ad-dalu'ch benthyciad.

Dylai'ch slipiau cyflog a'ch P60 fod wrth law pan fyddwch yn ffonio'r SLC. Os ydych ar fin gorffen

ad-dalu'r benthyciad, byddant yn trefnu bod eich ad-daliadau yn dod i ben ar y dyddiad cywir, er mwyn sicrhau na fyddwch yn talu gormod.

Er y bydd yr SLC yn gwneud popeth y gall er mwyn sicrhau na fyddwch yn talu unrhyw ordaliadau ar ddiwedd eich benthyciad, os na fyddwch wedi cysylltu â nhw i bennu dyddiad ar gyfer stopio'r ad-daliadau, mae'n debygol y byddwch yn talu gormod.

Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael ad-daliad llawn o'r holl ordaliadau a wnaethpwyd, ynghyd â llog. Bydd yr SLC yn ad-dalu llog ar yr un gyfradd â'r gyfradd a godwyd ar eich cyfrif, a bydd yr ad-daliad yn ddi-dreth.

Mae'r SLC yn ymdrechu i wella diwedd y broses ad-dalu. Byddant yn cynnig trefniadau i ostwng nifer y benthycwyr sy'n gordalu, a disgwylir i'r rhain

8 Symud i wlad dramor

fod mewn grym tuag at ddiwedd 2009.

Os na fyddwch yn talu treth yn y DU neu os ydych yn bwriadu gadael y DU ar ôl i chi orffen eich cwrs (am gyfnod dros dro neu oherwydd eich bod yn byw mewn gwlad arall), byddwch yn talu ad-daliadau yn uniongyrchol i'r SLC. Rhaid i chi roi gwybod i'r SLC cyn i chi adael y DU. Bydd yr SLC yn gofyn am wybodaeth am eich enillion ac yn rhoi eich amserlen ad-dalu misol i chi dan eich cytundeb gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yr Adran Gyflogaeth a Dysgu yng Ngogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban neu Weinidogion Cymru.

Rhaid i chi ddweud wrth yr SLC os ydych yn bwriadu symud i wlad dramor.

Cyfrifo'r ad-daliad

Bydd yr SLC yn cyfrifo'ch amserlen ad-dalu fisol gan ddefnyddio'r un rheolau â'r rhai a ddefnyddir ar

gyfer y rhai sy'n aros yn y DU. Felly, byddwch yn ad-dalu 9% o'ch enillion dros y trothwy ad-dalu. Gallwch ddisgwyl i'r SLC ysgrifennu atoch gan nodi'r manylion llawn pan fyddwch yn agosáu at ddiwedd eich cwrs.

Trothwy ad-dalu

Er mwyn ystyried y gwahaniaethau o ran costau byw, ni fydd y trothwy ad-dalu o reidrwydd yr un fath ag y bydd yn y DU. Mae'r tabl isod yn dangos swm y trothwy yn y gwahanol wledydd Ewropeaidd, yn ogystal â rhai cyrchfannau cyffredin eraill ar ôl graddio. Byddwn yn diweddarau'r bandiau hyn bob blwyddyn er mwyn ystyried newidiadau mewn prisiau. A bydd yr SLC yn gallu cynnig rhagor o gyngor i chi ynghylch y band ar gyfer gwledydd na chânt eu rhestru yma.

| Band | Mynegai lefel pris (DU=100) | Trothwy ad-dalu (DU=£15,000) | Gwledydd sy'n defnyddio'r pris diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ffigurau'r mynegai lefel |
|------|-----------------------------|------------------------------|---|
| A | Llai na 30 | £3,000 | Ar hyn o bryd, nid yw'n berthnasol i unrhyw wlad, ond fe allai newid gan ddibynnu ar y newidiadau i'r prisiau o'u cymharu â'r DU. |
| B | Mwy na 30 ond llai na 50 | £6,000 | Bwlgaria, Macedonia, Rwmania, Lithwania, Latfia |
| C | Mwy na 50 ond llai na 70 | £9,000 | Gwlad Pwyl, Slofacia, Twrci, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Croatia, Hwngari, Malta, Slofenia |
| D | Mwy na 70 ond llai na 90 | £12,000 | Portiwgal, Groeg, Sbaen, Cyprus, UDA |
| E | Mwy na 90 ond llai na 110 | £15,000 | Yr Eidal, Gwlad Belg, Awstria, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Ffrainc, Lwcsembwrg, Y Ffindir, Sweden, Japan |
| F | Mwy na 110 ond llai na 130 | £18,000 | Iwerddon, Y Swistir, Denmarc, Norwy, Gwlad yr Iâ |
| G | 130 neu fwy | £21,000 | Ar hyn o bryd, nid yw'n berthnasol i unrhyw wlad, ond fe allai newid gan ddibynnu ar y newidiadau i'r prisiau o'u cymharu â'r DU |

8 Symud i wlad dramor

Yna, byddwch yn cael amserlen ad-dalu wedi'i seilio ar eich enillion.

Ffordd o dalu

Bydd yr SLC yn ysgrifennu atoch gan roi rhagor o fanylion i chi am eich dewisiadau ad-dalu pan fydd hi'n bryd i chi ddechrau ad-dalu.

Bydd yr SLC yn newid eich incwm i bunnoedd sterling ac yn dweud wrthyh y swm y bydd angen i chi ei dalu bob mis mewn punnoedd sterling.

Chi fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau sy'n codi o newid yr arian.

Cyfradd ad-dalu sefydlog

Os na fyddwch yn rhoi manylion eich incwm i'r SLC, efallai y bydd yn codi swm sefydlog arnoch, a fydd wedi'i seilio ar werth dwywaith yr enillion cyfartalog yn y DU. Am ragor o wybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn ad-dalu'ch benthyciad, trowch at adran 9.

9 Yr hyn a fydd yn digwydd os na fyddwch yn talu eich ad-daliadau

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r contract a'r rheoliadau. Os byddwch yn talu treth yn y DU trwy gyfrwng y system PAYE, rhaid i chi roi'r wybodaeth angenrheidiol i'r SLC er mwyn iddynt allu trefnu ad-daliadau trwy'r system dreth.

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth, efallai y byddwch yn cael cosb ariannol.

Yn ogystal, bydd angen i chi roi gwybod i'r SLC am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth hon, efallai y bydd yr SLC yn rhoi cosb ariannol i chi a'i hychwanegu at gyfrif eich benthyciad.

Yn ôl y gyfraith, mae cyflogwyr yn gyfrifol am gymryd symiau cywir ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr. Efallai y bydd yn rhaid iddynt dalu dirwyon os na fyddant yn gwneud hyn.

Os byddwch yn talu treth yn y DU ac os byddwch yn cael ffurflen dreth hunanasesu, gallwch ddefnyddio hon i ddatgan ad-daliadau benthyciad myfyrwyr. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon yn gywir a'i dychwelyd mewn pryd. Yn ogystal, bydd yn rhaid i chi dalu eich ad-daliad benthyciad myfyrwyr a'ch treth mewn pryd. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu llog a chosbau ariannol. Mae hyn oherwydd y bydd benthyciadau myfyrwyr yn cael eu trin yn yr un modd â threth at ddibenion y ffurflen hon.

Yn ogystal, bydd yn rhaid i chi roi'r wybodaeth i'r SLC a CATHEM y byddant yn gofyn amdani, yn ogystal â chadw cofnodion o'ch incwm. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosbau ariannol.

Os byddwch yn symud i wlad dramor ac os na fyddwch yn gyfrifol am dalu treth yn y DU mwyach, ac os byddwch yn methu talu ad-daliadau sy'n ddyledus neu'n methu rhoi'r wybodaeth y mae'r SLC yn gofyn amdani, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosbau ariannol. Ceir tair sefyllfa benodol lle y gallai'r cosbau ariannol hyn gael eu rhoi.

- 1 Os na fyddwch yn rhoi gwybod i'r SLC eich bod yn symud i wlad dramor, efallai y byddwch yn cael cosb ariannol am beidio rhoi gwybod iddynt bod eich cyfeiriad wedi newid. Efallai y byddwch yn cael cosbau ariannol pellach os na fyddwch yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan yr SLC wedi hyn.
- 2 Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu costau unrhyw asiantau a gyflogir gan yr SLC i ddod o hyd i chi.
- 3 Os na fyddwch yn rhoi gwybodaeth lawn i'r SLC am eich incwm blynyddol, byddant yn seilio'ch ad-daliadau ar incwm sy'n cyfateb â gwerth **dwywaith** yr enillion cyfartalog yn y DU.

Yn y diwedd, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r benthyciad cyfan ar yr un pryd.

Sut bynnag y byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad, os byddwch yn parhau i fethu darparu gwybodaeth y bydd yr SLC yn gofyn amdani, ac o ganlyniad i hyn, ni fyddwch yn llwyddo i dalu ad-daliadau sy'n ddyledus, mae gan yr SLC yr hawl i **gyflymu eich dyled**. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu sicrhau gorchymyn llys a fydd yn mynnu eich bod yn ad-dalu'r benthyciad cyfan mewn un taliad. Gellir gorfodi hyn trwy'r llysoedd fel dyled sifil os ydych yn byw yn y DU neu mewn gwlad dramor.

10 Yr hyn i'w wneud os ydych yn anfodlon

Cwynion

Os ydych yn anfodlon gyda'r ffordd y mae'ch ad-daliadau yn cael eu casglu, dylech gysylltu â'r sefydliad dan sylw. Bydd yr SLC a CATHEM yn gallu rhoi manylion eu gweithdrefnau cwyno i chi. Ar ôl defnyddio'r weithdrefn hon, os ydych yn anfodlon o hyd, gellir trefnu adolygiad annibynnol o'ch achos. Fel arfer, bydd y canlynol yn delio ag adolygiadau annibynnol:

- yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr;
- y Dyfarnwr ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan CATHEM;
- yr Ombwdsmon Seneddol ar gyfer gwasanaethau a ddarparir gan y Llywodraeth, megis DIUS (am fanylion, trowch at www.ombudsman.org.uk);
- yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dros Ogledd Iwerddon, yr Alban neu Gymru (gweler y manylion cyswllt isod) am wasanaethau a ddarparir gan y Llywodraeth y tu allan i Loegr; neu'r
- Ombwdsmon Llywodraeth Leol am wasanaethau a ddarparir gan awdurdodau lleol (trowch at www.lgo.org.uk).

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus trwy droi at y wefan ar gyfer y gwasanaeth yn y wlad berthnasol.

Ar gyfer Gogledd Iwerddon, trowch at www.ni-ombudsman.org.uk.

Ar gyfer yr Alban, trowch at www.spsso.org.uk.

Ar gyfer Cymru, trowch at www.ombudsman-wales.org.uk.

Apeliadau

Mae'r rhain yn wahanol i gwynion. Efallai eich bod yn fodlon gyda'r ffordd y deliwyd â'ch cyfrif, ond efallai eich bod o'r farn bod penderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch eich cyfrif (er enghraifft, y swm y gofynnwyd i chi ad-dalu bob mis) yn anghywir, a'ch bod yn dymuno apelio. Yn yr un modd â chwynion, bydd gan y sefydliadau sy'n delio â'ch cyfrif weithdrefnau er mwyn delio ag apeliadau, a dylech ddilyn y rhain.

Fodd bynnag, os na fydd y gweithdrefnau hyn yn datrys y broblem, mae modd i chi apelio.

Bydd yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr yn delio ag apeliadau a wneir yn erbyn gwasanaethau a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr hefyd. Bydd y Comisiynwyr Treth yn delio ag apeliadau a wneir yn erbyn asesiadau a wnaethpwyd gan CATHEM.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio'r system gyfreithiol (er enghraifft, llys sirol), er mwyn datrys eich problem. Os ydych yn dymuno gwneud hyn, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol yn gyntaf (er enghraifft, gan gyfreithiwr, canolfan cyngor cyfreithiol neu ganolfan gynghori).

11 Cysylltiadau defnyddiol

Os oes gennych gwestiynau pellach, dylech ffonio un o'r rhifau isod, gan ddibynnu lle'r ydych yn byw.

| | |
|------------------|----------------|
| Lloegr | 0845 300 50 90 |
| Gogledd Iwerddon | 0845 600 0662 |
| Yr Alban | 0800 40 50 10 |
| Cymru | 0845 602 8845 |

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth

Os ydych yn byw yn Lloegr, gallwch gysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig er mwyn cael gwybodaeth gyffredinol am fenthyciadau myfyrwyr. Mae Swyddfa Cymorth Cwsmeriaid (CSO) SLC yn cynnig cyngor ynghylch materion cyffredinol megis:

- talu eich benthyciad;
- pa help ariannol sydd ar gael;
- y broses ymgeisio a'r amserlen; a'r
- cynnydd wrth asesu eich cais.

Gallwch ffonio CSO ar 0845 300 50 90 rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb a 5.30yh ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. (Gallai'r oriau hyn newid o bryd i'w gilydd ac mae modd i chi weld yr oriau agor diweddaraf trwy droi at wefan CSO yn www.studentfinancedirect.co.uk)

Neu, gallwch ysgrifennu at:
Student Loans Company Limited
100 Bothwell Street
Glasgow G2 7JD.

Gallwch gael gwybodaeth ynghylch gwneud cais am fenthyciadau gan eich awdurdod lleol (ALI) hefyd. Gallwch weld rhestr o gysylltiadau ALI yn Lloegr a Chymru trwy droi at www.dfes.gov.uk/localauthorities.

Dylech gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol os ydych yn byw yn ardal un o'r awdurdodau lleol canlynol.

- Bwrdeistref Brent, Llundain
- Bwrdeistref Hackney, Llundain
- Cyngor Bwrdeistref Darlington
- Cyngor Bwrdeistref Hartlepool
- Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
- Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland

- Cyngor De Tyneside
- Cyngor Bwrdeistref Southend-on-Sea
- Bwrdeistref Southwark, Llundain
- Cyngor Bwrdeistref Stockton-on-Tees
- Cyngor Dinas Efrog

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon,

gallwch gael gwybodaeth ynghylch gwneud cais am fenthyciadau gan eich Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd (ELB) lleol. Gallwch weld manylion cyswllt y Byrddau hyn a rhagor o wybodaeth ac arweiniad trwy droi at www.studentfinanceni.co.uk.

Os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch gael gwybodaeth ynghylch ymgeisio am fenthyciadau gan Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban (SAAS). Mae modd gweld manylion am SAAS trwy droi at www.saas.gov.uk.

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol, ffoniwch **0845 111 1711**.

Oriau agor

(Mehefin i Hydref)

- 8yb tan 6yh o ddydd Llun i ddydd Iau
- 8yb tan 4.30yh ar ddydd Gwener

(Tachwedd i Ebrill)

- 8.30yb tan 5yh o ddydd Llun i ddydd Iau
- 8.30yb tan 4.30yh ar ddydd Gwener

Mae'r gwasanaeth ffôn hwn yn eich galluogi i gael gwybodaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, trwy nodi'ch cyfeirnod SAAS. Bydd modd i chi ofyn am:

- gopi o'ch hysbysiad dyfarnu;
- gwybodaeth am gais cyfredol am ffioedd a chostau byw; a
- gwybodaeth am gais teithio cyfredol.

Os ydych yn byw yng Nghymru, gallwch ffonio canolfan gyswllt ddwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth gyffredinol am fenthyciadau myfyrwyr. Ffoniwch 0845 602 8845 rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb ac 1yh ar ddydd Sadwrn. (Mae modd gweld yr oriau agor diweddaraf trwy droi at eu gwefan sef www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk.)

11 Cysylltiadau defnyddiol

Gallwch gael gwybodaeth ynghylch gwneud cais am fenthyciadau gan eich awdurdod lleol (ALI) hefyd. Gallwch weld rhestr o gysylltiadau ALI yng Nghymru trwy droi at www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk.

Neu, gallwch droi at wefan Cymorth i Fyfyrrwyr DirectGov sef www.studentfinancedirect.co.uk.

Os ydych yn byw mewn gwlad dramor, dylech ffonio'r SLC ar 0141 243 3570 i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Lloegr

Ffoniwch y llinell wybodaeth Rhadffôn ar 0800 731 9133 os hoffech gael copi o'r canllawiau canlynol.

- Canllaw i Gymorth Ariannol ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch 2009/2010
- Pontio'r Bwlch – canllaw i lwfansau i fyfyrwyr anabl mewn addysg uwch 2009/2010
- Grant gofal plant a chymorth arall i fyfyrwyr AU sy'n rhieni – canllaw ar gyfer 2009/2010.

Yn ogystal, gallwch archebu fersiynau Braille a fersiynau sain o'r canllawiau hyn, a chopiau ohonynt mewn print mawr, trwy ffonio'r rhif hwn.

Mae modd cael copi electronig o'r canllawiau hyn hefyd trwy droi at www.studentfinancedirect.co.uk.

Gogledd Iwerddon

Os hoffech gael copi o 'Canllaw i Gymorth Ariannol ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch 2009/2010', gallwch gael copi gan eich Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd lleol neu'r Adran Cyflogaeth a Dysgu yn y cyfeiriad isod.

Student Finance Branch
Department for Employment and Learning
Student Finance Branch
Room 407 Adelaide House
39-49 Adelaide Street
Belfast
BT2 8FD.

Ffôn: 028 90 257746.

Mae modd cael copi electronig o'r canllaw hwn hefyd trwy droi at www.studentfinancenl.co.uk.

Yr Alban

Mae'r SAAS yn paratoi canllawiau ar gyfer myfyrwyr yr Alban. Os hoffech gael copi o'r canllawiau hyn, cysylltwch â:

Student Awards Agency for Scotland
Gyleview House
3 Redheughs Rigg
Edinburgh
EH12 9HH.

Ffôn: 0845 111 1711

Gwefan: www.saas.gov.uk

11 Cysylltiadau defnyddiol

Cymru

Ffoniwch y llinell wybodaeth Rhadffôn ar 0800 731 9133 os hoffech gael copi o ganllawiau dwyieithog canlynol Cyllid Myfyrwyr Cymru.

- Cyllid Myfyrwyr Cymru – Canllaw i Gymorth Ariannol ar gyfer Myfyrwyr Addysg Uwch 2009/2010
- Cyllid Myfyrwyr Cymru – Pontio'r Bwlch – canllaw i lwfansau i fyfyrwyr anabl mewn addysg uwch 2009/2010
- Cyllid Myfyrwyr Cymru – Grant gofal plant a chymorth arall i fyfyrwyr addysg uwch sy'n rhieni – canllaw ar gyfer 2009/2010.

Yn ogystal, gallwch archebu fersiynau Braille a fersiynau sain o'r canllawiau hyn, a chopïau ohonynt mewn print mawr, trwy ffonio'r rhif hwn.

Mae modd cael copi electronig o'r canllawiau hyn hefyd trwy droi at www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk.

Cyllid a Thollau EM

Ar ôl i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad, os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd y cesglir eich ad-daliadau trwy'r system dreth, dylech siarad â'ch cyflogwr neu gysylltu ag CATHEM gan ddefnyddio'r rhifau a nodir yn www.cathem.gov.uk/local/index.htm.

Gall yr SLC eich helpu gyda chwestiynau sy'n ymwneud â faint sydd gennych ar ôl i'w ad-dalu a phryd y byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad.

12 Crynodeb

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan yr SLC

- Datganiadau interim a blynyddol sy'n nodi faint sydd gennych ar ôl i'w ad-dalu
- Datganiadau blynyddol (ar ôl i chi ddechrau talu ad-daliadau)
- Manylion am y newidiadau i'r cyfraddau llog bob blwyddyn
- Help a chyngor am eich benthyciad a'ch ad-daliadau
- Arian yn ôl os byddwch yn talu unrhyw ordaliadau, gyda llog

Ni all yr SLC:

- ddarparu balansau sy'n nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am fenthyciadau; neu
- sicrhau y bydd eich ad-daliadau yn dod i ben ar yr adeg gywir (heb eich help chi).

Dylech:

- sicrhau eich bod yn rhoi'ch manylion personol diweddaraf i'r SLC (er enghraifft, os bydd eich cyfeiriad, eich enw neu'ch manylion banc yn newid);
- rhoi unrhyw wybodaeth arall y bydd yr SLC yn gofyn amdani, iddynt;
- cadw slipiau cyflog er mwyn cadw cofnod o'ch ad-daliadau; ac
- os ydych yn dymuno gwneud ad-daliadau gwirfoddol, dylech gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol i drefnu hyn. Os ydych yn ennill dros y trothwy ar gyfer talu ad-daliadau (£15,000 ers mis Ebrill 2005) ac os nad oes ad-daliadau yn cael eu talu, dylech hysbysu eich cyflogwr.

Am ragor o wybodaeth

Gallwch ffonio'r SLC gan ddefnyddio'r rhif perthnasol a nodir ar dudalen 23, rhwng 8yb ac 8yh o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9yb a 5.30yh ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Nodiadau ychwanegol

